Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Pecyn gwybodaeth Arweinwyr Arbenigedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

## Cefndir

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu seilwaith datblygu a chyflenwi ymchwil helaeth i gefnogi ymchwil glinigol o ansawdd uchel sy'n digwydd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fel rhan o'r seilwaith hwnnw, mae gwasanaeth Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn darparu ystod o wasanaethau canolog (Cymru gyfan) a lleol i ymchwilwyr.

Bydd Arweinwyr Arbenigedd yng Nghymru yn darparu cymorth strategol pwysig fel rhan o'r Gwasanaeth Cymorth a Chyflenwi, yn y meysydd therapiwtig a ganlyn:

- Heneiddio
- Anaesthesia, Meddygaeth Aml-lawdriniaethol a Rheoli Poen
- Canser (gweler y nodyn isod)
- Cardiofasgwlaidd
- Plant
- Gofal Critigol
- Dementia a Niwroddirywiad
- Dermatoleg
- Diabetes
- Clust, Trwyn a Gwddf
- Gastroenteroleg
- Genomeg a Chlefydau Prin
- Haematoleg
- Hepatoleg
- Delweddu
- Heintiau
- Iechyd Meddwl
- Metabolaidd ac endocrin
- Cyhyrysgerbydol ac orthopaedeg
- Anhwylderau niwrolegol
- Offthalmoleg
- Iechyd y Geg a Deintyddol
- Gofal Lliniarol
- Gofal Sylfaenol/Ymarfer Cyffredinol
- Iechyd Cyhoeddus
- Arennol
- Iechyd Atgenhedlol a genedigaeth
- Anadlol
- Gofal Cymdeithasol (gweler y nodyn isod)
- Strôc
- Trawma a gofal brys

Mae rôl yr **Arweinydd Arbenigedd Gofal Cymdeithasol** yn cael ei hystyried fel rhan o'r drafodaeth ehangach ar gymorth i ddarparu ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gan nad yw'r amserlenni ar gyfer y trafodaethau hyn yn gwbl gyson, bydd yr Arweinydd Arbenigedd Gofal Cymdeithasol/Gofal Preswyl yn cael ei benodi am dymor cychwynnol o flwyddyn yn unig, gyda'r potensial i ymestyn.

Mae rôl(au) yr **Arweinydd Arbenigedd Canser** a'i berthynas â rolau arweinyddiaeth glinigol canser eraill yng Nghymru yn cael eu cytuno ar hyn o bryd fel rhan o'r rhaglen Mynd i'r Afael â Chanser drwy Ymchwil, a chan nad yw'r trafodaethau wedi dod i ben, bydd rôl(au) yr Arweinydd Arbenigedd Canser cael eu penodi mewn proses ddilynol.

Er nad yw'r arbenigeddau hyn yn adlewyrchu'n llawn arbenigeddau newydd Rhwydwaith Cyflenwi Ymchwil NIHR (RDN), mae ymgysylltu â'r DU drwy aelodaeth o Grwpiau Arbenigol RDN NIHR yn rhan allweddol o rôl Arweinydd Arbenigedd Cymru. Mae'r grwpiau'n cydlynu ac yn goruchwylio gweithgarwch ar lefel y DU, gan ddarparu fforwm i rannu arfer da, llwyddiannau, cyfleoedd a heriau, a helpu i ddylanwadu ar yr amgylchedd ymchwil glinigol a'i siapio.

## Proses recriwtio 2025

Bydd recriwtio 2025 yn cwmpasu pob maes arbenigol, ac eithrio canser (a fydd yn cael ei lenwi trwy broses ar wahân). Bydd y rôl am dair blynedd (ac eithrio Gofal Cymdeithasol a fydd am flwyddyn) ac yn cyflawni'r tasgau/cyfrifoldebau a'r manylebau person isod.

Dylai ymgeiswyr lenwi Ffurflen Gais Arweinydd Arbenigedd 2025 a'i chyflwyno erbyn 17:00 ar 31 Ionawr 2025 i SpecialtyLeadsSupport@wales.nhs.uk.

## Manyleb y Person 2025

Dylai Arweinwyr Arbenigedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fod yn glinigwyr sydd â diddordeb mewn ymchwil neu'n academyddion clinigol sy'n agos at y GIG yng Nghymru ac sy'n weithgar ynddo ac sydd â statws a hygrededd gyda chydweithwyr yn y GIG.

Fel Arweinydd Arbenigedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, byddwch yn deall anghenion ymchwil a blaenoriaethau GIG Cymru yn eich maes arbenigol, a bydd gennych yr hyder, y gallu a'r profiad i gyflawni'r holl dasgau a chyfrifoldebau a amlinellir.

Caniateir ceisiadau ar y cyd, lle mae dau unigolyn yn dymuno rhannu'r rôl, cyn belled â bod achos cryf yn cael ei gyflwyno. Mewn achosion o'r fath, gall ymgeiswyr naill ai addasu'r ffurflen gais i'w chyflwyno ar un ffurflen, neu lenwi dwy ffurflen gais ar wahân – naill ffordd neu'r llall, dylid cyflwyno'r holl wybodaeth gan gynnwys y ddogfennaeth ategol fel pecyn cyflawn.

Rhaid i chi ragweld gallu darparu parhad gwasanaeth yn y rôl ar gyfer cyfnod y penodiad (hyd at ddiwedd mis Mawrth 2028).

Rhaid i chi gadarnhau cefnogaeth gan eich sefydliad cyn gwneud cais.

## Cefnogaeth ariannol

a) Amser sesiynol
Mae'n debygol y bydd angen i'r Arweinwyr Arbenigedd neilltuo 0.1 cyfwerth ag amser llawn/un sesiwn yr wythnos i'r rôl.

Bydd amser sesiynol yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r sefydliad cynnal, wedi'i broffilio a'i glustnodi o fewn dyraniadau cyllid Cymorth a Chyflenwi sefydliadau'r GIG (neu'n cael ei anfonebu ar wahân yn achos sefydliadau cynnal SAU).

b) Teithio a chynhaliaeth (T&S)

Gellir gwneud ceisiadau ar sail ad hoc i dîm canolog Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, am gostau ychwanegol a geir wrth drefnu cyfarfodydd (lleoliad/lletygarwch) neu am y costau teithio a geir, a gellir gofyn am hyn yn ôl yr angen (dylai hyd at £1000 y flwyddyn fod yn ddigon i'r rhan fwyaf o Arweinwyr Arbenigedd gyflawni'r disgwyliadau gofynnol). Gellir archebu teithiau a lleoliadau drwy dīm canolog Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru neu'n lleol – os yw'n cael ei archebu'n lleol, caiff y taliad i'r sefydliad GIG ei addasu drwy daliadau cynllun gwariant. Lle bo modd, dylid lleihau'r costau hyn drwy ddefnyddio cyfleusterau presennol y GIG neu Sefydliadau Addysg Uwch (SAU).

## Cwblhau'r ffurflen gais

Mae'r adran hon yn rhoi arweiniad, fesul cwestiwn, ar sut i lenwi'r ffurflen gais Arweinydd Arbenigedd.

I wneud cais, dylid anfon y canlynol trwy e-bost i SpecialtyLeadsSupport@wales.nhs.uk erbyn 17:00 ar ddydd Llun 31 Ionawr 2025

1. Ffurflen gais wedi'i chwblhau
2. CV yr Ymgeisydd (Dwy dudalen ar y mwyaf)
3. E-bost cadarnhad gan Gyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu (Y&D) y GIG neu Bennaeth Adran
4. E-bost cadarnhad gan y Rheolwr Llinell.

**Adran A: Arbenigedd**

Rhowch enw'r arbenigedd yr ydych yn gwneud cais amdano, gan gyfeirio at y teitlau ar dudalen un y pecyn hwn.

**Adran B: Manylion yr ymgeisydd**

Rhowch fanylion cyswllt yma, os gwelwch yn dda. Bydd cyswllt rhwng Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r ymgeisydd fel arfer drwy e-bost, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu cyfeiriad e-bost cyfredol yr ydych yn ei ddefnyddio'n rheolaidd. Nodwch y sefydliad a fydd yn gweithredu fel y sefydliad cynnal. Rhaid i'r sefydliad hwn fod eich prif gyflogwr lle mae gennych gontract sylweddol.

Y sefydliad fydd y sefydliad y bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gontract ffurfiol ag ef, os bydd eich cais yn llwyddiannus.

Cynhwyswch e-bost ategol oddi wrth eich Pennaeth Adran, neu Gyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu os yw'n gyflogedig gan sefydliad GIG, gyda'r geiriad canlynol:

"Rwy'n cefnogi'r cais am Arweinydd Arbenigedd ac yn cadarnhau mai fy sefydliad sy'n cynnal yr ymgeisydd. Rwy'n cadarnhau bod y costau a nodir yn y cais yn gywir a byddaf yn sicrhau bod unrhyw gyllid yn cael ei neilltuo i'r diben hwn, os bydd y cais yn llwyddiannus."

**Adran C: Cynllun Gweithgaredd (600 o eiriau ar y mwyaf)**

Disgrifiwch pa mor weithgar yw'r ymchwil/y gymuned ymchwil yn yr arbenigedd yr ydych wedi gwneud cais amdano a disgrifiwch y potensial i gynyddu'r gymuned gweithgaredd/ ymchwil hon yng Nghymru. Efallai yr hoffech gyfeirio at ba mor ymgysylltiedig y mae clinigwyr neu staff gofal cymdeithasol yn yr arbenigedd, a pha mor ymgysylltiedig yw'r sefydliadau. Efallai yr hoffech ddisgrifio pa mor eang yw'r gweithgareddau ymchwil ar hyn o bryd – a ydynt yn rhychwantu cwmpas yr arbenigedd cyfan, neu a yw'n amrywio yn ôl is-arbenigedd? Sut mae'r proffil arbenigedd wedi datblygu yn y blynyddoedd diwethaf?

Disgrifiwch yr hyn y credwch y gellir ei gyflawni o fewn y tair blynedd nesaf gan gyfeirio at y rolau/cyfrifoldebau a restrir uchod. Dylai hyn fod yn realistig (o ystyried y cyflwr presennol) ond yn uchelgeisiol, o ystyried faint o amser yr ydych yn gofyn amdano. Efallai yr hoffech dynnu sylw at eich nodau, eich amcanion a'r buddion disgwyliedig a fydd yn cael eu cyflenwi.

**Adran D: Cynllun Swydd**

Cadarnhewch faint o amser rydych yn gwneud cais amdano – dylai hyn fod hyd at 0.1 cyfwerth ag amser llawn/un sesiwn yr wythnos.

Y dyddiad cychwyn fydd 1 Ebrill 2025, cadarnhewch hyn, neu nodwch os oes angen dyddiad cychwyn gohiriedig.

Darparwch hefyd grynodeb o'ch cynllun swydd presennol ac arfaethedig yn dangos amser yr Arweinydd Arbenigedd. Rydym yn cydnabod y gall hyn amrywio o wythnos i wythnos, felly mae cynllun cyffredinol yn dderbyniol. Ni ddylai'r cynllun swydd arfaethedig fod yn fwy na 12 sesiwn.

Cynhwyswch e-bost gan eich rheolwr llinell gyda'r geiriad canlynol:
"Rwy'n cadarnhau mai fi yw rheolwr llinell yr ymgeisydd, ac rwyf wedi cytuno ar y cynllun swydd gydag amser gwarchodedig ar gyfer rôl yr Arweinydd Arbenigedd fel yr amlinellir yn y ffurflen gais, pe bai'r ymgeisydd yn llwyddiannus."

**Adran E: Cyllid**
Cwblhewch y tabl cyllid. Dylech ddarparu eich costau cyflog disgwyliedig (gan gynnwys argostau) ar gyfer y tair blynedd nesaf a'ch costau WTE disgwyliedig (gan gynnwys argostau) yn y rhes briodol. Sylwch fod rhaid i chi gynnwys argostau sy'n gysylltiedig â'ch cyflog ar hyn o bryd oherwydd ni fydd yn bosibl eu hychwanegu yn ddiweddarach. Ni thelir unrhyw orbenion.

Cofiwch gynnwys eich costau teithio a chynhaliaeth disgwyliedig ar gyfer pob blwyddyn o'r dyfarniad.

**Adran F: Datganiadau**

Mae cyflwyno'r ffurflen gais hon drwy e-bost yn cadarnhau eich bod yn deall ac yn ymrwymo i ymgymryd â'r rôl a nodir uchod. Mae angen e-byst cadarnhad hefyd gan eich Pennaeth Adran neu Gyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu GIG a'ch Rheolwr Llinell. Nid oes angen llofnodion ar wahân.

## Arweinwyr Arbenigedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru - Prif dasgau a chyfrifoldebau 2025-2028

Gan weithio gyda thîm canolog Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a'r Arweinydd Cyflenwi Gweithredol Arbenigedd enwebedig, tasgau a chyfrifoldebau Arweinydd Arbenigedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw:

1. **Ymgysylltu a chefnogi rhwydwaith o ymchwilwyr** o fewn y maes arbenigedd perthnasol, trwy:
    1.1. Arwain digwyddiadau/seminarau/cyfarfodydd cymorth cymheiriaid ar gyfer y rhwydwaith o brif ymchwilwyr (PIs) a'r gymuned ehangach o ymchwilwyr posibl (o leiaf un y flwyddyn)
    1.2. Cefnogi'r gwaith o gynnal cofrestr gyfredol Cymru gyfan o PIs
    1.3. Darparu gwasanaeth cyfeirio, cyngor a mentora i bobl sydd am ddod yn PIs ac sydd fel arall yn cymryd rhan mewn ymchwil
    1.4. Gweithio i helpu i gynyddu nifer y PIs anfeddygol ledled Cymru.

2. **Annog yn rhagweithiol gyfranogiad y GIG mewn astudiaethau portffolio**, a thrwy hynny wella cyfleoedd i gleifion gymryd rhan mewn ymchwil yng Nghymru, drwy:
    2.1 Gyfrannu at gynnal datganiad galluogrwydd/diffyg galluogrwydd cyfredol ar gyfer y maes arbenigedd perthnasol
    2.2. Cynorthwyo i nodi safleoedd a PIs gan wneud y defnydd gorau o ddata ynghyd â dealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol i lywio lleoliad astudiaethau
    2.3 Cynghori ar y gallu i gyflenwi astudiaethau a chynnal asesiadau cyflenwadwyedd pan ofynnir amdanynt, gan gynnwys ystyried mynediad teg ar draws y gymuned/meysydd lle mae cleifion ag angen mawr
    2.4 Cefnogi prosiectau a arweinir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ôl yr angen i hwyluso cydgysylltu a rheoli Datganiadau o Ddiddordeb yn yr arbenigedd
    2.5. Hyrwyddo'n weithredol y nifer sy'n ymgymryd ag astudiaethau ar safleoedd addas yng Nghymru, gan gynnwys fel rhan o brosesau Mynegi Diddordeb Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru/nodi safleoedd (ymchwil masnachol ac anfasnachol)
    2.6. Nodi ac ymdrin â'r effaith ar iechyd rhanbarthol ac anghydraddoldebau cymdeithasol ar bob cam o'r gwaith cyflenwi ymchwil o fewn yr Arbenigedd.
    2.7 Sefydlu a chynnal pwynt cyswllt arbenigol/hyrwyddwr lleol ym mhob sefydliad GIG, a/neu fecanweithiau eraill i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad ymchwil yn cael eu rhaeadru a'u cyflawni lle bo'n berthnasol i arbenigedd
    2.8 Cychwyn, hwyluso a hyrwyddo cydweithrediadau traws-arbenigol a thraws-sefydliadol rhanbarthol er mwyn cyflenwi ymchwil yn well.

3. **Darparu trosolwg strategol o'r portffolio astudio** ar gyfer yr Arbenigedd
    3.1 Cefnogi sefydlu a chyflwyno astudiaethau ymchwil yn llwyddiannus ledled Cymru o fewn yr arbenigedd perthnasol
    3.2. Hyrwyddo a gweithredu dulliau 'Cymru'n Un' ar gyfer cyflenwi ymchwil lle bo'n briodol – annog cydgysylltu ar draws timau/sefydlu astudiaethau a'u cyflenwi
    3.3. Cynnal goruchwyliaeth lefel uchel o berfformiad cyflenwi astudiaethau o fewn yr arbenigedd gan ddefnyddio offer megis dangosfwrdd gwybodaeth busnes Arweinwyr Arbenigedd
    3.4. Cefnogi'r gwaith o nodi ac ymdrin â rhwystrau systemig a phenodol i gyflenwi'r portffolio arbenigedd (gan uwchgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymorth a Chyflenwi a Chyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu lleol y GIG yn ôl yr angen)

3.5. Adrodd a hyrwyddo cyflawniadau wrth gyflwyno ymchwil ar gyfer yr arbenigedd
3.6. Gweithio gyda Phenaethiaid Cyflenwi Ymchwil Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

4. **Ymwreiddio ymchwil**, ymgysylltu a chyflenwi i'r GIG a'r amgylchedd gofal ehangach drwy:
   4.1. Godi proffil ymchwil mewn amgylcheddau a gwasanaethau GIG a gofal cymdeithasol perthnasol; er enghraifft, mewn cyfarfodydd clinigol a rheoli, wrth ddatblygu gwasanaethau o fewn yr arbenigedd
   4.2. Gweithredu fel Llysgennad Ymchwil i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – darparu cyfweliadau â'r cyfryngau mewn trafodaeth â thîm Cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, i hyrwyddo ymchwil yng Nghymru
   4.3. Cysylltu â Chyfarwyddwyr Ymchwil a Datblygu'r GIG ac arweinwyr anweithredol y Byrddau Iechyd ar gyfer ymchwil, i gefnogi diwylliant ymchwil cadarnhaol ar y cyd.

5. **Bod yn aelod gweithgar o Grŵp Arbenigedd Cenedlaethol y DU perthnasol a arweinir gan NIHR,** drwy:
   5.1 Fynychu a chynrychioli Cymru ym mhob un o gyfarfodydd Grŵp Arbenigol y DU (tri i bedwar bob blwyddyn)
   5.2. Adrodd i Grŵp Arbenigol y DU ar berfformiad yr holl astudiaethau portffolio gyda safleoedd yng Nghymru
   5.3. Codi ymwybyddiaeth yr NIHR a rhwydweithiau cysylltiedig am arbenigedd a galluogrwydd ymchwil yng Nghymru
   5.4. Codi ymwybyddiaeth o fewn yr NIHR ac yn ehangach o'r potensial i GIG Cymru ymgysylltu ag astudiaethau portffolio'r DU
   5.5. Rhannu arfer da gyda chydweithwyr NIHR a datblygu ymatebion i heriau
   5.6. Rhoi adborth i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar y cyfraniad a wnaed/a enillwyd
   5.7 Adrodd yn ôl ar y diweddariadau gan NIHR a rhwydweithiau ehangach y DU i'r gymuned arbenigol yng Nghymru.

6. **Darparu adroddiadau ymchwil** o fewn y maes arbenigedd perthnasol, drwy:
   6.1. Gyflwyno adroddiadau gweithgaredd personol i'r Cyfarwyddwr Cymorth a Chyflenwi cenedlaethol ddwywaith y flwyddyn
   6.2. Cael cyfarfod un i un gyda'r Cyfarwyddwr Cymorth a Chyflenwi Cenedlaethol/Pennaeth Cenedlaethol Gweithrediadau Cyflenwi Ymchwil i gytuno ar amcanion a chynnydd sy'n benodol i'r arbenigedd
   6.3. Cyfrannu at gynlluniau cyflenwi cenedlaethol ar gyfer clefydau a/neu rwydweithiau a pholisi cenedlaethol arall lle bo'n berthnasol
   6.4. Mynychu cyfarfodydd arweinwyr arbenigedd Cymru gyfan (3 gwaith y flwyddyn).

7. **Gweithio gyda phrosesau cenedlaethol**, Canolfan Gymorth a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Swyddfeydd Ymchwil a Datblygu'r GIG i gyflenwi'r cyfrifoldebau uchod.

Bydd y cyfrifoldebau hyn yn cael eu hadolygu yn ystod cyfnod y penodiad.

DIWEDD